Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Lord Chief Justice of England and Wales

Senior President of Tribunals

# Gweddnewid ein System Gyfiawnder: Gan Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Medi 2016

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gweddnewid ein System Gyfiawnder: | 3 |
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Y weledigaeth | 4 |
| 3. Llysoedd Troseddol | 8 |
| 4. Llysoedd sifil | 11 |
| 5. Llysoedd Teulu | 13 |
| 6. Tribiwnlysoedd | 15 |
| 7. Casgliad | 17 |

**Gweddnewid ein System Gyfiawnder:**

# Gweddnewid ein System Gyfiawnder:

**Gan Yr Arglwydd Ganghellor, Yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.**

## 1. Cyflwyniad

Mae ein system gyfiawnder yn destun eiddigedd byd-eang. Mae gennym farnwriaeth annibynnol ragorol sy'n cael ei edmygu'n eang am arwain y ffordd yn rhyngwladol. Mae gan ein cyfreithwyr enw da byd eang - a haeddiannol - am ragoriaeth. Ac mae gennym ddiwydiant gwasanaethau cyfreithiol sy'n cyfrannu biliynau o bunnau bob blwyddyn i economi'r DU.

Mae'n iawn i ni fod yn falch o'n system Cyfraith Gyffredin, sydd wedi arwain y byd am 1000 o flynyddoedd ac wedi dylanwadu ar gymaint o awdurdodaethau. Mae ein hawl i dreial gan reithgor - "y llusern sy'n dangos bod rhyddid yn fyw," fel y'i disgrifiwyd gan Yr Arglwydd Devlin - wedi bod yn un o'n llwyddiannau pennaf. Ar draws y byd, mae tegwch ein system droseddol, a'r hanes sy'n gysylltiedig â llysoedd eiconig megis yr Old Bailey, yn cael eu dathlu.

Ond fe ddylem wneud mwy na dim ond dathlu ein hanes a'n traddodiad. Heddiw cydnabyddir bod ein llysoedd masnachol yn ddigyffelyb. Mae cyfreithwyr rhyngwladol yn dod yma oherwydd eu bod yn gwybod y byddant yn cael eu trin yn deg, a thramor mae'n well ganddynt mai ein cyfraith ni yw'r gyfraith sy'n llywodraethu ar gontractau masnachol. Bu i'r hyder hwnnw olygu cyfraniad o £25.7 biliwn i economi'r DU drwy wasanaethau cyfreithiol yn 2015[1].

Ond mae yna heriau i'w wynebu eto. Wrth edrych ymlaen, mae angen i ni sicrhau bod ein system gyfiawnder yn parhau i arwain y byd - bod ei enw da rhagorol yn cael ei atgyfnerthu a bod gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol a phobl gyffredin yr arfau i fanteisio ar bob cyfle newydd. Er mwyn gwneud hynny, mae angen newid ein system mewn ffordd radical, er mwyn cael TG a phrosesau modern ac adeiladu sy'n addas i'r diben.

Bydd y diwygiadau a amlinellir yma yn gwireddu hynny drwy gyfuno ein traddodiadau uchel eu parch â phŵer galluogi technoleg. Y weledigaeth yw moderneiddio ac uwchraddio ein system gyfreithiol fel ei bod yn gweithio'n well byth i bawb, o farnwyr a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, i dystion, ymgyfreithwyr a dioddefwyr trosedd sy'n agored i niwed. Pan fo angen iddynt ymgysylltu â'r system, rydym eisiau i bawb gael mynediad i'r system gyfiawnder orau yn y byd.

Mae gennym yr ewyllys a'r modd nawr i wireddu hynny. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i fuddsoddi dros £700 miliwn i foderneiddio llysoedd a thribiwnlysoedd, a dros £270 miliwn arall yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn. Yn y llysoedd troseddol, mae ffeiliau achos digidol eisoes wedi cael gwared â'r angen am dwmpathau o waith papur. Mae'r Adeilad

[1] The City UK, https://www.thecityuk.com/research/uk-legal-services-2016-report/

Rolls - gyda'i system ar-lein newydd sy'n galluogi i achosion gael eu cychwyn a'u rheoli'n electronig - wedi tanategu enw da rhyngwladol Llundain fel y brif ganolfan ar gyfer datrys anghydfodau busnes. Ond bydd moderneiddio yn mynd yn llawer pellach na hynny - bydd ymestyn a mwyhau'r dull hwn ar draws yr holl lysoedd a thribiwnlysoedd yn adeiladu ar ein treftadaeth ryfeddol, ond yn darparu system sy'n syml i bob dinesydd ei defnyddio.

Mae'r Llywodraeth a'r farnwriaeth yn rhannu'r un ymrwymiad i wireddu hynny. Mae ein hamcan cyffredinol yn glir: system llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n gyfiawn a chymesur a hygyrch i bawb - system fydd yn parhau i arwain ac i ysbrydoli'r byd.

## 2. Y weledigaeth

Bydd hon yn system gyfiawnder fydd yn rhoi lle canolog i anghenion a disgwyliadau pobl. Bydd gweddnewid y llysoedd a'r tribiwnlysoedd ar draws y wlad yn seiliedig ar dair egwyddor graidd sy'n adeiladu ar gryfderau presennol:

- Cyfiawn
- Cymesur
- Hygyrch

Dylid ystyried bod penderfyniadau a wneir gan ein barnwyr a chanlyniadau achosion yn **gyfiawn** i bob parti - yn arbennig i ddioddefwyr trosedd sy'n agored i niwed. Mae'n rhaid i'r farnwriaeth gael cefnogaeth prosesau modern a thryloyw sy'n gyson, ac sy'n caniatáu i achosion tebyg gael eu trin mewn modd tebyg. Dylai'r farnwriaeth a'r proffesiwn cyfreithiol gael eu ffurfio o'r gronfa dalent ehangaf bosibl, sy'n cynnwys merched, pobl o gymunedau BAME, a rhai o gefndiroedd sy'n wynebu anfanteision cymdeithasol. Drwy hynny bydd y farnwriaeth yn parhau i ennyn hyder y cyhoedd ac i ategu Rheolaeth y Gyfraith.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y system gyfiawnder yn **gymesur** er mwy arbed amser i bobl, lleihau eu costau, a lleihau effaith achosion cyfreithiol ar eu bywydau. Mae oedi cyfiawnder yn rhwystro cyfiawnder. Dylid ymdrin ag achosion gwerth isel, neu'r rhai â dim ond ychydig o arwyddocâd cymdeithasol, yn gyflym. Dylai dioddefwyr troseddau a thystion sy'n agored i niwed eu cefnogi gan brosesau clir ac effeithiol. Yn bendant dylid anghymeradwyo esgoli dadleuon yn ddiangen, a'u cadw allan o'r llys pryd bynnag fo'n bosibl. Dylai cost, cyflymder a chymhlethdod fod yn gymesur i faint a sylwedd yr achos.

Dylai ein system gyfiawnder fod yn **hygyrch**. Mae hyn yn golygu y dylai'r gweithdrefnau a'r mesurau unioni fod ar gael ac yn ddealladwy i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr. Ni ddylai pobl ag anableddau fyth deimlo eu bod yn cael eu hallgau oherwydd nad ydynt yn gallu bod yn bresennol mewn ystafell llys, neu ddelio â dogfennau neu weithdrefnau traddodiadol. Yn yr un modd, mae'n rhaid cynorthwyo pobl nad ydynt yn gyfforddus â thechnoleg newydd bob amser.

Yn ymarferol, bydd yr egwyddorion craidd hyn yn sicrhau y bydd ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn darparu **cyfiawnder cyflym a chadarn** i bawb.

### Blociau adeiladu'r diwygio

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y ffordd y darperir cyfiawnder yn **gymesur**. Ar gyfer achosion syml bob dydd, bydd y weithdrefn yn cael ei symleiddio ac yn haws i'w defnyddio. Fel bod y system gyfiawnder yn gweithio i bawb mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i ni sicrhau

bod iaith bob dydd yn cael ei defnyddio. Bydd strwythur ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, sydd wedi esblygu dros ganrifoedd, yn cael ei liflinio, fydd yn golygu y bydd yn haws i bawb, ac nid i gyfreithwyr yn unig, lywio drwy'r broses. Mewn achosion busnes a masnachol mwy cymhleth, bydd y llysoedd yn cynnig dewis o ddulliau, fydd yn galluogi'r barnwr a'r ymgyfreithwyr i benderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol ar gyfer datrys yr achos.

Hefyd, mae'n amser i **arloesi** yn ein system. Yn draddodiadol, mae datrys achosion wedi bod yn seiliedig ar eiriolaeth gerbron barnwr mewn llys ffisegol. Mae angen i ni gofleidio dulliau ac ymagweddau newydd, ac osgoi a chyfyngu ar ddadleuon yn ogystal â'u datrys. Gan ddysgu gwersi o arferion presennol, byddwn yn ystyried cyflwyno llysoedd datrys problemau, y bydd eu penderfyniadau wedi'u anelu at osgoi aildroseddu yn ogystal ag ad-daledigaeth, a bydd hynny'n gam sylweddol ymlaen o ran ymdrin ag ymddygiad troseddwyr ac atal mwy o bobl rhag bod yn ddioddefwyr yn y dyfodol. Mewn achosion sifil, teulu a thribiwnlys, byddwn yn cyflwyno dulliau newydd a llai cwerylgar i ddatrys achosion. Byddwn hefyd yn defnyddio swyddogion achos wedi'i hyfforddi'n arbennig ar gyfer delio â rheoli achosion elfennol a dilyniant achosion, er mwyn galluogi i'n barnwriaeth ganolbwyntio eu hamser a'u harbenigedd ble mae ei wir angen.

Bydd y chwyldro mewn **technoleg** yn nodweddu system gyfiawnder y dyfodol. Byddwn yn darparu mynediad ar-lein drwy ddatblygu un system ar-lein ar gyfer cychwyn a rheoli achosion ar draws yr awdurdodaethau troseddol, sifil, teulu a thribiwnlysoedd. Bydd hyn yn helpu pobl i ddeall eu hawliau a pha opsiynau sydd ar gael iddynt. Yr hyn fydd yn llai gweledol i'r cyhoedd fydd cyflwyno systemau rheoli dogfennau ac achosion cydnerth yn eang er mwyn disodli'r systemau ffeilio papur hynod aneffeithlon sy'n bodoli heddiw - mesurau fydd yn gwella effeithlonrwydd yn gyffredinol.

Byddir yn delio â rhai achosion yn gyfan gwbl ar-lein. Yn y llysoedd troseddol, rydym eisoes yn gweld barnwyr ac ynadon yn gweithio ar-lein yn hytrach nag yn y llysoedd, yn penderfynu ar achosion addas neu rannau o achosion ar sail papurau a gyflwynwyd iddynt yn electronig. Mae hyn yn galluogi i'r amddiffyniad, yr erlyniad â'r llysoedd weithio'n hyblyg a chynnal achosion yn fwy effeithlon. Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu ymestyn y manteision hyn drwy gyflwyno proses strwythuredig o bledio ar-lein, a galluogi cyfreithwyr, partïon a thystion i gymryd rhan mewn gwrandawiadau traddodiadol drwy gyfrwng cynadledda ffôn a fideo drwy gynnal "rhith-wrandawiadau" Bydd hynny'n cael ei ymestyn drwy'r system, ac nid i'r awdurdodaeth droseddol yn unig, gan wneud llysoedd yn fwy hwylus i bawb.

## System gyfiawnder yfory

Gydag amser, bydd gwaith llysoedd a thribiwnlysoedd yn defnyddio gwrandawiadau rhithwir, traddodiadol ac ar-lein yn unol â'r hyn sy'n bodloni amgylchiadau'r achos orau. Wrth i dechnolegau newydd wreiddio, rydym yn disgwyl y bydd mwy a mwy o achosion neu rannau o achosion yn cael eu cynnal yn rhithwir neu ar-lein.

Mewn rhai amgylchiadau penodol wrth gwrs, bydd cyfiawnder yn ei gwneud yn ofynnol i bartïon, eu cynghorwyr a'r barnwyr gynnal gwrandawiadau mewn llysoedd ffisegol.

Yn y cyfamser, dylai'r rhai sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd – gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol - ddisgwyl dau ddatblygiad arwyddocaol. Y cyntaf yw ein nod i **bob** achos gael ei gychwyn ar-lein, p'un a ydynt wedi eu trefnu ar gyfer y system draddodiadol neu ar gyfer datrysiad ar-lein. Yr ail fydd cwblhau rhai achosion yn gyfan gwbl ar-lein, a fydd yn llawer mwy cyfleus i bawb. Byddir yn gallu rheoli achosion addas -

ar y cychwyn, hawliadau am ddyledion ac iawndal gwerth isel ac apeliadau i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant - drwy wasanaethau ar-lein fforddiadwy a syml, fydd wedi eu dylunio'n benodol er mwyn bodloni anghenion defnyddwyr.

Bydd yna god gweithdrefnol newydd llawer symlach: Bydd ffurflen ar-lein yn arwain pobl drwy eu cais ac wrth i'w hachos fynd rhagddo. Bydd y dull hwn yn cael ei ddylunio er mwyn hyrwyddo dulliau mwy cymodol o ddatrys achosion, ac er mwyn bod yn ddealladwy i bobl nad ydynt yn gyfreithwyr, gan helpu pobl gyffredin i ddatrys eu problemau mewn ffordd dawel, heb yr angen am gynrychiolaeth gyfreithiol ddrud i'w helpu i ddeall beth i'w wneud.

## Llys fel adnodd

Wrth i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd gael eu moderneiddio bydd angen llai o adeiladau arnom, a fydd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon gydag ystafelloedd llys fydd yn fwy hyblyg. Mewn nifer o achosion, ni fydd angen bod yn bresennol mewn gwrandawiadau dim ond pan na fydd dewis arall; bydd partïon yn gallu ymgysylltu yn rhithwir neu ar-lein yn hytrach na gorfod treulio amser yn mynd i gwrandawiadau. Ar hyn o bryd mae gennym dros 400 o adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd, ac mae nifer ohonynt yn hen, yn fychan, aneffeithiol ac yn ddrud i'w cynnal. Yn 2014-15, roedd tua hanner (48%) o lysoedd a thribiwnlysoedd ond yn cael eu defnyddio am lai na hanner yr amser.[2] Bydd nifer yn cau yn ystod y pedair blynedd nesaf er mwyn ariannu buddsoddiad mewn nifer llai o adeiladu mwy modern all fodloni anghenion pobl yn well.

## Gadael neb ar ôl

Mae'r rhaglen ddiwygio yn golygu newid llwyr tuag at fynediad digidol i gyfiawnder. I nifer o bobl bydd gwella ein technoleg a rhoi mwy o wasanaethau a phrosesau ar-lein yn golygu y bydd cyfiawnder yn fwy hygyrch ac yn symlach nag erioed o'r blaen. Ond rydym yn sylweddoli y bydd hynny'n her i rai pobl.

Ym Mhrydain, er yr oedd gan 86 y cant o gartrefi fynediad i'r rhyngrwyd yn 2015, dim ond 49 y cant o gartrefi gydag un oedolyn 65 oed a hŷn oedd gan fynediad i'r rhyngrwyd.[3] Nid yw un o bob deg oedolyn, yn cynnwys chwarter y bobl anabl, erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd.[4] Mae ymchwil yn dangos bod yna graidd bychan o bobl, nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, nad ydynt yn bwriadu cysylltu â'r we o gwbl.[5]

Byddwn yn darparu cymorth i'r rhai na all gael mynediad i wasanaethau yn ddigidol, neu sydd angen help i wneud hynny. Wrth ddylunio gwahanol wasanaethau, byddwn bob amser yn teilwra'r cymorth o gwmpas anghenion y rhai fydd yn eu defnyddio.

---

[2] Ymateb i'r cynnig ar ddarparu'r ystâd llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/499518/national-consultation-document.pdf

[3] Bwletin y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Internet Access – Households and Individuals 2015': http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2015-08-06

[4] Bwletin y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Internet Access – Households and Individuals 2015': http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2015-08-06

[5] Oxford Internet Institute, Cultures of the Internet: The Internet in Britain 2013

## Effaith ar y farnwriaeth a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol

Bydd y diwygiadau arfaethedig yn effeithio’n fawr ar waith nifer o farnwyr, ynadon a chyfreithwyr.

Bydd hyn yn galw am hyblygrwydd a pharodrwydd i gofleidio technoleg newydd. Yn y llysoedd ynadon mae llawer o newid yn digwydd eisoes gyda rheoli achosion actif a mwy o ddefnydd o TG. Rydym hefyd yn edrych ar sut y gallwn ddefnyddio’r farnwriaeth yn fwy hyblyg ar draws gwahanol awdurdodaethau’r llysoedd a thribiwnlysoedd. Hyd yma bu’n llwyddiannus. Mae’r farnwriaeth yn cofleidio’r cyfleoedd a gynigir gan ddigideiddio ar gyfer symleiddio a moderneiddio gweithdrefnau ar draws y llysoedd a’r tribiwnlysoedd i greu system fwy modern a digidol sy’n gweithio’n well nid yn unig i bobl broffesiynol megis yr heddlu a chyfreithwyr, ond i bobl gyffredin hefyd.

I gyfreithwyr yn arbennig, bydd arloesi yn amhrisiadwy: er mwyn canfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, o symleiddio arferion gwaith, o ganolbwyntio mwy ar fodloni anghenion eu holl gleientiaid, o ddiffynyddion i deuluoedd a hawlwyr sifil. Mae llawer yn cael ei wneud eisoes gan y proffesiynau cyfreithiol, ond bydd y diwygiadau yn eu galluogi i fod yn llawer mwy uchelgeisiol. Rydym yn hyderus eu bod yn rhannu ein hymrwymiad i weithio gyda’n gilydd er mwyn siapio system llysoedd fodern fydd yn gyfraniad sylweddol tuag at greu cymdeithas fwy cyfiawn.

# 3. Llysoedd Troseddol

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn un o arfau mwyaf pwerus y wladwriaeth, sy'n gallu amddifadu unigolion o'u rhyddid. Mae'n warantwr allweddol hawliau'r dinasyddion di-drosedd. Yng Nghymru a Lloegr, rydym yn ffodus bod gennym system cyfiawnder troseddol sy'n cael ei hedmygu a'i hefelychu o gwmpas y byd.

Gan adeiladu ar y cryfderau hynny, byddwn yn rhoi i'n barnwriaeth arweiniad eglur ar ein llysoedd troseddol ac yn buddsoddi mewn prosesau mwy doeth a lliflinedig er mwyn darparu gwell cyfiawnder i bawb, gan gynnwys dioddefwyr, tystion a'r gymdeithas. Rydym eisiau sicrhau y gwrandewir ar y rhan fwyaf o achosion Llys y Goron ar y diwrnod y'u rhestrir, er mwyn rhoi sicrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r achos, fel y gall tystion fod yn sicr y byddant yn rhoi tystiolaeth yn ôl y disgwyl. Ac rydym eisiau lleihau costau system achosion 'chwâl' (pan fo diffynyddion yn newid eu ple i euog ar y funud olaf) ac achosion aneffeithiol (pan na ellir bwrw ymlaen â'r achos ar y diwrnod). Bydd hyn hefyd yn helpu i gynyddu hyder dioddefwyr a thystion.

Mae oediadau a gohiriadau yn anochel: gall achosion fod yn gymhleth a gall fod angen dadansoddi fforensig gofalus neu archwilio ffeiliau lluosog o dystiolaeth electronig, er enghraifft. Ond mae angen i ni sicrhau nad yw achosion yn cael eu hoedi oherwydd arferion gwaith aneffeithlon.

## Cefnogi dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed

Mae sicrhau bod lleisiau dioddefwyr a thystion yn cael eu clywed yn rhan allweddol o system gyfiawnder troseddol, ac mae eu cefnogi ym mha ffordd bynnag y gallwn yn rhan ganolog o'n rhaglen ddiwygio. Eisoes, gall dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed roi tystiolaeth o du ôl i sgrin, neu drwy gysylltiad fideo, ond rydym eisiau gwneud mwy er mwyn rhoi mwy o ddewis i'r llys a thrwy hynny roi mwy o warchodaeth i'r tystion.

Rydym wedi cynyddu nifer y lleoliadau ble gall dioddefwyr a thystion roi eu tystiolaeth. Mewn nifer o achosion mae hynny yn golygu nad oes raid iddynt hyd yn oed fod mewn adeilad llys, ac mae hynny'n arbed amser iddynt ac yn caniatáu iddynt roi tystiolaeth mewn amgylchedd sy'n teimlo'n ddiogel. Ar ôl cyflwyno'r dull rheoli achosion yn ddigidol ar draws holl ganolfannau Llys y Goron, mae datganiadau, yn cynnwys datganiadau personol dioddefwyr, nawr ar gael i farnwyr yn gynharach yn ystod yr achos, ac mae hynny'n caniatáu mwy o amser i ystyried yr achos.

Ond mae yna fwy y gellir ei wneud o hyd. Rydym eisoes wedi peilota croesholi cyn treial sy'n caniatáu i dystion sy'n agored i niwed recordio eu tystiolaeth cyn i'r treial gael ei gynnal, a byddwn yn cyflwyno hyn yn genedlaethol o 2017. Bu i'r cynllun peilot amlygu bod y dull hwn yn arwain at well profiad i dystion, a bod y croesholi yn cael ei gynnal mewn hanner yr amser o'i gymharu ag achosion eraill, a bu iddo hefyd ddangos cynnydd yn nifer y diffynyddion sy'n pledio'n euog yn gynnar. Dylai'r mesurau hyn olygu bod profiad sydd weithiau'n anodd yn ychydig llai trallodus.

## Digideiddio'r system cyfiawnder troseddol

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei ddigideiddio yn llwyr, mewn partneriaeth â Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu, gyda buddsoddiad o £270 miliwn y cytunwyd arno yn 2015, a bwriedir i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2019. Bydd y system newydd hon yn darparu proses ar-lein ar gyfer rheoli achosion troseddol o'r cyhuddiad i'r euogfarn, gan gysylltu'r llysoedd ag eraill sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Bydd hefyd yn

hysbysu dioddefwyr a thystion i droseddau ynglŷn â'r achosion maent yn ymwneud â hwy ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Mae Wi-Fi wedi cael ei gyflwyno i weithwyr cyfreithiol proffesiynol bron ym mhob llys troseddol, mae'r rhan fwyaf o waith achos llysoedd ynadon yn cael ei drosglwyddo'n ddigidol bellach rhwng yr heddlu â Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae erlynyddion yn cyflwyno achosion mewn llysoedd ynadon gan ddefnyddio gliniaduron a sgriniau fideo, ac mae barnwyr mewn canolfannau Llys y Goron yn rheoli eu holl achosion ar-lein. Mae'r gweithio digidol hwn yn galluogi'r amddiffyniad, yr erlyniad a'r llysoedd i weithio'n well gyda'i gilydd, gan arbed amser, ac yn eu galluogi i ganolbwyntio eu hegni ar faterion yr achos.

Ond mae yna dal ormod o dystiolaeth yn cael ei gario o gwmpas y wlad ar CDs a thapiau camerâu cylch cyfyng, ac mae gormod o ddulliau 'digidol' o weithio yn ddibynnol ar bobl yn sganio darnau o bapur.[6] Bydd hynny yn newid. Bydd yr holl gyfranogwyr mewn achos, o'r barnwr i'r rheithgor, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r amddiffyniad, cynghorwyr cyfreithiol a staff y llys, yn dod yn 'ddigidol yn ddiofyn' yn fuan.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen i wrandawiadau rhagarweiniol gael eu cynnal wyneb yn wyneb mewn llys, a bydd hynny'n arbed arian ac y golygu llai o angen i ddiffynyddion gael eu cludo yn ôl ac ymlaen o'r carchar i'r llys.

Rydym hefyd eisiau gwneud i brosesu troseddau diannod angharcharadwy pan nad oes dioddefwyr amlwg y gellir eu hadnabod - megis osgoi talu am docyn rheilffordd neu drwydded teledu, goryrru, yswiriant a thipio – fod hyd yn oed yn fwy effeithlon drwy alluogi i ddiffynyddion bledio ar-lein, gan arbed amser llys gwerthfawr. Mae fersiwn gynnar o hyn ar gyfer troseddau traffig eisoes yn cael ei gyflwyno yn genedlaethol.

Mewn achosion penodol, rydym yn cynnig proses hyd yn oed symlach fydd yn golygu y gall diffynyddion ddatrys eu hachosion yn syth gan ddefnyddio system sy'n gwbl awtomatig. Mae hynny'n golygu pan fo rhywun yn cyfaddef i fân droseddau penodol ac yn dewis optio i mewn i system awtomatig, bydd y system honno yn darparu euogfarn ar-lein ac yn pennu dirwy benodol safonol a chostau. Bydd hynny'n galluogi diffynyddion i gwblhau eu hachosion ac i dalu'r gosb yn syth, heb orfod dod i'r llys - gwelliant cyfiawn, effeithlon a syml. Mae cael gwared â'r angen am wrandawiadau llawn fel hyn hefyd yn rhyddhau ynadon i dreulio eu hamser gwerthfawr yn ystyried yr achosion sydd fwyaf angen eu sylw.

## Uno'r llysoedd troseddol

Bydd digideiddio yn helpu i hwyluso'r broses wrth i achosion fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, ond mae angen i ni hefyd wella effeithlonrwydd dyrannu achosion.

Rydym eisiau i achosion gael eu clywed mor gyflym â phosibl ar y lefel fwyaf priodol, fel nad yw dioddefwyr a thystion yn teimlo bod cyfiawnder yn cael ei oedi. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn uno'r llysoedd troseddol o dan un strwythur arweinyddiaeth ac yn diwygio Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

Rydym eisoes wedi cynyddu hyblygrwydd cyn belled ag y gallwn er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu clywed yn agos i ble y cyflawnir troseddau, ond heb ddefnyddio

[6] Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol, Delivering Justice In a Digital Age, April 2016: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/delivering-justice-in-a-digital-age/

llinellau mympwyol ar fapiau. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i ffactorau eraill, megis argaeledd gwrandawiad prydlon neu hwylustod a chyfleusterau ar gyfer dioddefwyr, gael eu hystyried. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes wedi ei wneud, gan gael gwared â biwrocratiaeth ddiangen fel bod gan lysoedd ynadon yr holl ryddid a hyblygrwydd sydd ei angen arnynt er mwyn gwneud penderfyniadau rhestru synhwyrol a rheoli eu llwyth achosion yn effeithlon.

Bydd uno'r llysoedd troseddol hefyd yn galluogi trosolwg effeithiol o ddyrannu gwaith rhwng Llys y Goron a llysoedd ynadon. Er mwyn rhesymoli'r system, fel yr argymhellir yn yr Adolygiad o Effeithlonrwydd Achosion Troseddol gan Syr Brian Leveson, mae angen dyrannu hyblyg rhwng y ddau.

## Tryloywder

Bydd y system cyfiawnder troseddol yn cael ei danategu gan fwy o dryloywder. Am y tro cyntaf rydym wedi cyhoeddi offeryn ar-lein[7] sy'n dod â data ynglŷn â'r mathau o achosion a glywir ym mhob un o ganolfannau Llys y Goron; yr amser a gymerir i wahanol fathau o achosion gael eu clywed; pa fath o ganlyniadau sy'n deillio ohonynt; faint o achosion sy'n aros i gael eu clywed; a faint o achosion sy'n methu â mynd rhagddynt yn ôl y bwriad, at ei gilydd. Dyma'r math o ddata tryloyw ac agored y dylai system cyfiawnder fodern ei gofnodi gan sicrhau ei fod ar gael fel y gellir craffu'n briodol ar berfformiad system.

## Llysoedd datrys problemau

Byddwn hefyd yn parhau i archwilio defnyddio llysoedd troseddol 'datrys problemau' arloesol, sy'n ceisio newid ymddygiad troseddwyr drwy fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol megis caethiwed i gyffuriau ac alcohol neu salwch meddwl. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud er mwyn gwerthuso'r dystiolaeth ryngwladol a domestig. Bydd hynny'n helpu i hysbysu sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'r math yma o ymagwedd yng Nghymru a Lloegr.

[7] Offeryn Gwybodaeth Llys y Goron: https://www.judiciary.gov.uk/crown-court-information/

# 4. Llysoedd sifil

Ein huchelgais ar gyfer y llysoedd sifil yw eu bod yn cadw ac yn atgyfnerthu eu safle byd-eang fel yr awdurdodaeth ddibynadwy a ffafrir ar gyfer achosion rhyngwladol, a'u bod yn dod yn haws i'w defnyddio i bawb, ac yn fwy cymesur o ran datrys achosion cyfreithiol symlach. Mae'n rhaid i'r system weithio i bawb, o fasnachwyr rhyngwladol ag achosion masnachol cymhleth, cwmnïau sy'n ffeilio swmp o hawliadau, i'r unigolion sy'n ffeilio hawliadau untro pan fônt yn teimlo bod rhywun wedi gwneud cam â hwy.

Mae Llundain yn ganolfan fyd-eang ar gyfer achosion masnachol. Erbyn hyn mae dros wyth deg y cant o achosion masnachol a ddelir gan gwmnïau cyfreithwyr yn Llundain yn cynnwys parti rhyngwladol. Mae'n rhaid i ni ddarparu system sy'n cyfateb i arbenigedd ein barnwriaeth a safon ein gwasanaethau cyfreithiol, gan adeiladu ar enw da presennol Adeilad Rolls fel y brif ganolfan ar gyfer datrys achosion masnachol rhyngwladol.

Bydd ein diwygiadau yn hyrwyddo ystod gyflawn o ddulliau i ddatrys achosion yn gyflymach, am lai o gost a gyda mwy o ddewis. Mae hynny'n debygol o gynnwys nifer o opsiynau: gwerthusiad diduedd o'r achos, yna trafodaeth, cymodi, cyfryngu neu wrandawiad wedi'i deilwra i ddatrys y materion sy'n parhau i fod yn destun dadl rhwng y partïon. Dyluniwyd yr opsiynau hyn er mwyn lleihau gwrandawiadau cwerylgar ac i helpu'r partïon i setlo eu hachosion gyda chyn lleied o straen a drwgdeimlad, p'un a ydynt yn aelodau o'r cyhoedd neu'n gorfforaethau rhyngwladol. Yn ddibynnol ar gymhlethdod yr achos - ac anghenion pawb o dan sylw - gall hynny fod ar-lein, ar bapur neu wyneb yn wyneb.

Rydym eisiau adeiladu ar fodelau symlach sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr. Yn y llysoedd sifil, byddwn yn awtomeiddio a digideiddio'r broses hawliadau ariannol yn gyfan gwbl erbyn 2020. Mae'r rhain yn cyfateb i bedair rhan o bump o'r 1.6 miliwn o hawliadau a gyflwynir i'r llysoedd sirol a'r Uchel Lys bob blwyddyn - ac mae'r rhan helaethaf (83%[8]) o'r rhai hynny yn ddiwrthwynebiad.

Byddwn yn cyflymu datrysiadau wrth i ni amnewid papur a phost gyda gweithio'n ddigidol: ar hyn o bryd mae hawliad 'llwybr cyflym' gyda gwerth o rhwng £10,000-£25,000 yn cymryd 11 mis i'w ddatrys.[9] O dan ein model digidol newydd, bydd achosion yn cael eu prosesu'n gyflymach ac mewn modd mwy cyfleus, gan wella'r profiad i bawb sy'n gwneud hawliad neu'n amddiffyn hawliad yn y llysoedd sifil.

Mae angen gwneud mwy i reoli costau achosion sifil fel eu bod yn gymesur i'r achos, a bod costau cyfreithiol yn fwy pendant o'r cychwyn. Gan adeiladu ar ddiwygiadau cynharach, byddwn yn edrych ar opsiynau i ymestyn costau adenilladwy penodol yn ehangach, fel y bydd costau mynd i lys yn eglurach ac yn fwy priodol. Ein nod yw na fydd partïon sy'n colli yn wynebu costau cyfreithiol sy'n anghymesur o uchel, ac y gall pobl wneud penderfyniad mwy deallus ynglŷn â chymryd neu amddiffyn camau cyfreithiol ai peidio.

---

[8] Ystadegau Chwarterol Cyfiawnder Sifil y Weinyddiaeth Gyfiawnder: https://www.gov.uk/government/statistics/civil-justice-statistics-quarterly-january-to-march-2016-and-the-royal-courts-of-justice-2015

[9] Ystadegau Chwarterol Cyfiawnder Sifil y Weinyddiaeth Gyfiawnder: https://www.gov.uk/government/statistics/civil-justice-statistics-quarterly-january-to-march-2016-and-the-royal-courts-of-justice-2015

Rydym hefyd eisiau gwneud mwy i sicrhau y byddwch yn cael yr hyn sy'n ddyledus i chi os bydd y llys yn dyfarnu o'ch plaid. Byddwn yn ymestyn pwerau'r Uchel Lys, gan ei alluogi i roi gorchmynion atodi enillion fel bod dyledwyr yn talu'n ôl i'w credydwyr. Mae gan y Llys Sirol y pŵer hwn yn barod a bydd y newid hwn yn darparu opsiwn gorfodi ychwanegol i ddefnyddwyr yn yr Uchel Lys. Er mwyn ei gwneud yn fwy eglur beth fydd yn cael ei ad-dalu o dan y gorchmynion hynny, byddwn hefyd yn gweithredu tablau penodol fel y bydd dyledwyr a chredydwyr yn deall beth yn union fydd y gyfradd ddidyniadau.

# 5. Llysoedd Teulu

Blaenoriaeth y llysoedd teulu yw canfod atebion i'r achosion mwyaf personol, sy'n aml yn cynnwys plant sy'n agored i niwed, ac er mwyn gosod teuluoedd ar y llwybr gorau posibl yn y dyfodol. Dylai'r llysoedd hyn, yn fwy na'r un arall, fod yn llefydd sy'n cynnig eglurder a gobaith - nid cymhlethdod a phroses.

Yn y system cyfraith teulu, bydd diwygiadau'n cael eu harwain i ddechrau gan les plant. Hon yw'r ystyriaeth bwysicaf un. Mae ein hegwyddorion craidd, sef system sy'n gyfiawn, cymesur a hygyrch, yn golygu bod oedi, cymhlethdod a gwrthdaro diangen rhwng partïon yn cael ei leihau er mwyn gwarchod lles plant. Rydym wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae llysoedd teulu yn gweithredu ers Adolygiad Cyfiawnder Teulu 2011, gan greu un awdurdodaeth er mwy darparu cyfiawnder esmwythach a mwy effeithlon i deuluoedd a phlant, gan wella prydlondeb achosion cyfraith gyhoeddus (gofal) yn sylweddol. Ond mae mwy i'w wneud o hyd.

## Achosion Cyfraith Breifat

Mae achosion cyfraith breifat yn y llys teulu yn canolbwyntio'n bennaf ar anghydfodau rhwng cyplau sy'n gwahanu, ynglŷn â phlant neu arian. Bydd y rhan fwyaf o rieni sy'n gwahanu yn gwneud trefniadau parthed eu plant yn breifat. Dim ond ar gyfer tua un o bob deg plentyn i rieni sy'n gwahanu y gwneir eu trefniadau cyswllt yn y llys[10]. Er hynny, mae defnyddio llys i ddatrys achosion teulu yng Nghymru a Lloegr yn dal yn uchel: cychwynnwyd bron i 43,000 o achosion plant a 38,000 o achosion ariannol yn 2015[11].

Mae'n bwysig cynnig cyfle i rieni sy'n gwahanu ddatrys materion yn deg rhyngddynt, gan osgoi straen, cost a gwrthdaro mewn achosion cyfreithiol. Rydym yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ni helpu cyplau sy'n gwahanu i wneud hynny, a rhan sylweddol o hynny fydd digideiddio a symleiddio'n prosesau a darparu mwy o wybodaeth er mwyn galluogi pobl i wneud y trefniadau priodol eu hunain.

Ar gyfer y bobl hynny sy'n penderfynu ysgaru, bydd y broses yn symlach. Mae'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn golygu proses syml iawn drwy'r llys. Dim ond tua 2% o'r achosion sy'n destun gwrthwynebiad[12]. Er hynny, mae'r rheolau a'r ffurflenni yn faith a chymhleth, ac nid ydynt wedi newid llawer ers y 1970au. Byddwn yn symleiddio'r broses ac yn rhoi cymaint â phosibl ohoni ar-lein.

Bydd yr un egwyddorion o symleiddio yn cael ei gymhwyso i brofiant. Gall delio â materion profiant fod yn anodd a chymhleth ar adeg pan all pobl fod yn delio â galar. Bydd y system profiant yn cael ei digideiddio fel y bydd y rhan fwyaf o'r broses o wneud cais yn cael ei wneud ar-lein mewn achosion na wrthwynebir, a fydd yn ei gwneud yn llawer symlach i bobl ei defnyddio.

---

[10] Peacey, V. and Hunt, J. (2008). *Problematic contact after separation and divorce? A national survey of parents*. London: Gingerbread

[11] Tabl 1, Ystadegau Chwarterol Llys Teulu y Weinyddiaeth Gyfiawnder: https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2015

[12] Cyfiawnder Teulu – Canllaw Llysoedd Teulu: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/512554/guide-to-family-court-statistics.pdf - Tudalen 8 - 98% of petitions sent to the other party are consented too with the rest being contested

## Achosion Cyfraith Gyhoeddus

Mae'r llys teulu hefyd yn delio ag achosion cyfraith gyhoeddus pan fo awdurdodau lleol yn dwyn achosion ynglŷn â llesiant plant, pan fyddant yn ceisio caniatâd i oruchwylio rhieni, neu i roi eu plant mewn gofal neu eu rhoi i'w mabwysiadu. Er bod penderfyniadau mewn achosion cyfraith gyhoeddus wedi'u cyflymu, mae angen canolbwyntio ar sut mae'r penderfyniadau hynny yn cael eu gwneud ac ar y dystiolaeth sy'n dangos beth sy'n gweithio'n well i blant. Mae angen defnyddio adnoddau ble gallant sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, lleihau gwrthdaro a thrin y rhai o dan sylw gydag urddas a pharch.

Mae gwaith yn cael ei wneud i geisio deall yn well beth sy'n gweithio, ac er mwyn profi a hyrwyddo dulliau arloesol o ddatrys problemau: Y Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC), y rhaglen Pause (sy'n gweithio gyda mamau y tynnwyd mwy nag un plentyn oddi wrthynt er mwyn ceisio torri'r cylch) a chynlluniau peilot cynadleddau setliadau dan arweiniad barnwr (proses wirfoddol ddiwrthwynebiad er mwyn helpu i drafod cytundeb rhwng partïon).

Mae prosesau o'r fath yn darparu dewis amgen i'r broses bresennol all ar brydiau droi'n frwydr rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol, ac yn ei dro gall hynny ei gwneud yn anoddach i bawb ganolbwyntio ar les y plentyn ac i weithio gyda'i gilydd pan fo penderfyniad wedi'i wneud.

## 6. Tribiwnlysoedd

Mae tribiwnlysoedd yn elfen hanfodol o reolaeth y gyfraith. Maent yn galluogi dinasyddion i sicrhau bod y wladwriaeth a chyflogwyr yn atebol am benderfyniadau sy'n effeithio'n sylweddol ar fywydau pobl. Nodwedd y system dribiwnlysoedd yw darparu cyfiawnder teg, arbenigol ac arloesol. Ni ddylai hynny newid.

Er hynny, mae'r achos o blaid diwygio'r tribiwnlysoedd yn un cryf. Daw 400,000 o hawliadau bob blwyddyn gerbron tribiwnlysoedd[13]. Mae'r cynhwysion angenrheidiol eisoes yn eu lle er mwyn helpu ein barnwyr a'n haelodau fabwysiadu dull mwy holgar a dull sy'n well am ddatrys problemau, sy'n canolbwyntio ar anghenion unigolion fel y gall hawlwyr fod yn fwy hyderus y bydd eu hanghenion yn cael eu deall. Bydd hyn yn cael ei danategu gan gynllun i greu un system, un farnwriaeth a chanlyniadau gwell.

Bydd cyfleoedd arloesol i 'ddatrys problemau' yn cael eu creu er mwyn gwella sut y penderfynir ar ystod o faterion sy'n hanesyddol wedi cael eu taenu ar draws llysoedd a thribiwnlysoedd. Mae'r dull 'siop un stop' yma yn cael ei beilota mewn achosion ynglŷn ag eiddo y gellir delio â hwy gerbron un Barnwr arbenigol, gan roi datrysiad cyflymach a mwy pendant i hawlwyr. Bydd y posibilrwydd o ymestyn hynny i feysydd eraill megis Iechyd Meddwl a Chyflogaeth yn cael ei archwilio.

Bydd tribiwnlysoedd yn ddigidol yn ddiofyn, a bydd prosesau ar-lein sy'n hawdd eu defnyddio a'u deall yn cael eu sefydlu er mwyn helpu pobl i gyflwyno hawliad yn haws, ond gyda'r lefelau priodol o gymorth ar gael i unrhyw un sydd ei angen, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei amddifadu o gyfiawnder. Pan fo hawliad wedi ei wneud, bydd rhannu dogfennau digidol yn awtomatig gydag adrannau perthnasol y llywodraeth yn golygu y bydd gan y tribiwnlysoedd a'r partïon yr holl wybodaeth briodol i'w galluogi i ddelio â hawliadau yn brydlon ac effeithiol, gan arbed amser i baneli tribiwnlysoedd a'r hawlwyr. Bydd gan y rhai sy'n defnyddio tribiwnlysoedd fynediad i arbenigedd barnwrol drwy ddefnyddio offerynnau a thechnoleg maent yn eu defnyddio'n rheolaidd mewn agweddau eraill o'u bywydau. Bydd hynny'n galluogi i graidd yr achos gael ei ganfod yn gyflym, i benderfyniadau anghywir gael eu datrys, ac y gellir chwynnu achosion anobeithiol – a fydd yn gwella cyfiawnder i bawb.

Yn ystod y 18 mis nesaf, bydd datrys achosion ar-lein yn cael ei brofi mewn gwrandawiadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, a bydd pobl yn cyflwyno eu hapeliadau ac yn derbyn ymateb ar-lein, a bydd barnwyr tribiwnlysoedd yn darparu datrysiad drwy 'wrandawiadau ar-lein parhaus". Bydd y broses barhaus hon yn galluogi barnwyr i gasglu tystiolaeth a gwneud penderfyniadau deallus ar gyflymder sy'n briodol i'r achos a'r partïon.

Erbyn 2020 bydd tribiwnlysoedd yn rhan o un system gyfiawnder gydag un farnwriaeth. Byddant yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau ar gyfer datrys apeliadau a hawliadau a bydd anghenion y bobl sy'n defnyddio'r tribiwnlysoedd yn ganolog; o rith-wrandawiadau, gwneud penderfyniadau ar-lein, gwerthuso cynnar, cyfryngu a chymodi i wrandawiadau wyneb yn wyneb traddodiadol. Bydd achosion yn cael eu datrys ar y lefel briodol ar gyfer y

---

[13] Tribunals and gender recognition certificate statistics quarterly: January to March 2016
https://www.gov.uk/government/statistics/tribunals-and-gender-recognition-certificate-statistics-quarterly-january-to-march-2016

materion dan sylw, gan roi datrysiad cyflymach, mwy safonol ac achosi llai o straen i bob parti.

# 7. Casgliad

Mae'r diwygiadau hyn yn adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes - system gyfiawnder sy'n ennyn parch o gwmpas y byd am ei rhagoriaeth. Ond maent hefyd yn cydnabod rhywbeth pwysig yn hanes unigryw'r system honno. Mae hi wedi esblygu drwy'r amser.

Mae pob cenhedlaeth wedi diweddaru neu ddiwygio'r system gyfiawnder er mwyn addasu i gyfnodau newydd. O selio'r Magna Carta i warchod annibyniaeth farnwrol yn Neddf Setliad 1701, i greu Llys y Goron yn y 1970au - ni fu unrhyw gyfnod o segura neu hunanfodlonrwydd. Nid ydym wedi etifeddu'r system gyfiawnder ryfeddol hon drwy ddamwain ond yn hytrach drwy weledigaeth a gwaith caled ein rhagflaenwyr.

Mae ein cyfnod ni - gyda dyfodiad y rhyngrwyd a ffrwydrad technoleg newydd - yn darparu cyfle am newid radical. Mae ffyrdd traddodiadol o weithio yn cael eu tanseilio, nid ym maes cyfiawnder yn unig, ond yn gyffredinol. Felly, er mwyn sicrhau ac atgyfnerthu enw da byd-eang ein system gyfiawnder, mae'n rhaid i ni ymateb i'r newidiadau hynny yn radical a chyflym, ac i anghenion a disgwyliadau pawb sy'n defnyddio ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd, sy'n esblygu'n gyflym.

Mae craidd y diwygiadau hyn yn ymwneud â bodloni anghenion yr holl bobl hynny - barnwyr, ynadon, y proffesiynau cyfreithiol, tystion, dioddefwyr, diffynyddion, dinasyddion unigol a busnesau o bob maint.

Wrth ddarparu system gyfiawnder gymesur ac effeithiol iddynt, dylem nid yn unig fod yn cystadlu â'r awdurdodaethau gorau o gwmpas y byd, ond gyda phob profiad defnyddwyr modern sy'n bodoli, o sgwrsio ar Skype gyda theulu a ffrindiau, i fancio ar-lein, i lofnodi contractau gyda busnesau ar ochr arall y blaned.

Drwy ddarparu system sy'n gyfiawn a hygyrch i bawb sydd ei hangen, byddwn nid yn unig yn cystadlu ag arferion modern o gwmpas y byd, ond hefyd yn parchu arferion ein hanes ein hunain. O brofiad, rydym yn gwybod bod ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn ategu rheolaeth gyfraith uwchlaw popeth - gan gynnal trefn a'r rhyddid unigol y mae pob un ohonom yn ei fwynhau. Mae rheolaeth y gyfraith yn rhan sylfaenol o bob cymdeithas wâr. Uwchlaw popeth, bydd y diwygiadau hyn yn helpu i warchod hynny.

© Crown copyright 2015

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 or write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

Alternative format versions of this report are available on request from CourtsReformPolicy@justice.gsi.gov.uk.